Cyflwyniad

Ceir yn y daflen hon gyngor i fusnesau ar gysgodfeydd ysmygu; ei nod yw egluro anghenion y ddeddfwriaeth newydd sydd yn cael ei gyflwyno ar **Ebrill 2il 2007.**

Beth a olygir gyda fframwaith ysmygu?

Mae fframwaith ysmygu yn unrhyw fan o dan do neu nenfwd. Ni does rhaid iddo fod yn fframwaith gyda waliau ac, yn syml, gall fod yn fan o dan ganopi neu gysgodlen.

Oes rhaid i mi baratoi cysgodfeydd ysmygu y tu allan i fy staff neu gwsmeriaid sy'n ysmygu?

Nag oes. Fodd bynnag, buasem yn argymell y dylech ystyried lle mae eich staff a'ch cwsmeriaid yn debygol o ysmygu. Cyfyd hyn oherwydd materion eilaidd sy'n codi o gyflwyno gwaharddiad ysmygu. Er Enghraifft: iechyd a diogelwch, ysbwriel (stympiau sigarennau) ac, yn arbennig gyda masnach drwyddedig, materion fel sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Os yw eich staff angen cymorth gydag ysmygu, gallant ffonio Llinell Gymorth i Ysmygwyr (0800 169 0169) neu gysylltu gyda Gwasanaeth Peidio ag Ysmygu Cymru Gyfan (0800 085 2219).

Rwyf eisiau darparu cysgodfeydd ysmygu allanol lle y gall fy staff a'm cwsmeriaid ysmygu. Sut wna i hyn?

Bydd angen i chi sicrhau fod beth rydych yn ei gynnig yn cydymffurfio â'r gyfraith, h.y. *nid yw'n gaeedig neu'n sylweddol gaeedig.* Gwelir y diffiniad arfaethedig yn y rheoliadau draft. Fe'ch cynghorir i chwilio am gyngor cynllunio lleol a chyfreithiol ar y mater rhag ofn i beth sydd gennych mewn golwg fod angen caniatâd cynllunio neu ganiatâd adeiladu.

Fedrwch chi roi enghraifft o 'caeedig'?

Ystafell sydd gyda nenfwd neu do sy'n ymestyn dros bob wal a lle nad oes agoriadau, h.y. gofodau gweigion neu fylchau yn y waliau hyn ar wahân i ddrws neu ffenestr. Mae'r ystafell yn "gaeedig".

Fedrwch chi roi enghraifft o "sylweddol gaeedig"?

Os oes agoriad yn yr ystafell, h.y. gofodau gweigion neu fylchau fel waliau ar goll *(ond dim drysau neu ffenestri)* sy'n agored i'r awyr iach o'r tu allan o faint sy'n llai nag arwynebedd ei berimedr mae yn sylweddol gaeedig. Yn sylfaenol, er mwyn cydymffurfio gyda heb fod yn sylweddol gaeëdig ac i ganiatáu ysmygu, ***dylai o leiaf 50% o'r perimedr o dan y to neu'r nenfwd fod yn ofod.*** Petai'r fframwaith yn bedair wal blwch, yna oni chaniateir defnydd solet ar lai na hyd sy'n cyfateb i un cefn ac un ochr.

Pam nad yw drysau, ffenestri a thramwyfeydd yn agoriadau?

Mae drysau, ffenestri a thramwyfeydd wedi eu heithrio gan ddeddfwriaeth wrth benderfynu pa un ai yw adeilad neu ran o adeilad yn gaeëdig neu yn sylweddol gaeëdig. Pwrpas y ddeddfwriaeth yw sicrhau fod unrhyw fan lle mae ysmygu yn digwydd, yn cael ei wyntyllu'n naturiol ac yn effeithiol. Yr agoriadau delfrydol i sicrhau hyn yw gofodau parhaol i'r awyr iach. Mae'n bosib cau drysau, ffenestri a ffitiadau eraill. Mae tramwyfeydd yn dueddol o fod yn gaeëdig neu yn sylweddol gaeëdig ac felly ni wnânt gynorthwyo gwyntyllu mannau ysmygu. Pan ystyrir drysau a ffenestri, ayyb. wrth benderfynu a ydyw adeilad yn sylweddol gaeëdig, gellir ystyried eu bod yn gwasanaethu fel waliau.

Pa mor bell all unrhyw fframwaith arall fod o'r gysgodfan ysmygu?

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn nodi'r pellter y dylai cysgodfan ysmygu fod o fframweithiau eraill. Fodd bynnag, dylid cadw mewn golwg os yw'r gysgodfan yn agos i wrthrychau eraill fel gwrychoedd, ffensys neu waliau, bydd effeithiolrwydd y gwyntylliadau naturiol yn cael ei ostwng.

Argymhellir y dylai cysgodfan fod o leiaf 1.5 medr i ffwrdd oddi wrth fframwaith arall (os nad yw'r fframwaith mewn cwestiwn yn ffurfio rhan o'r gysgodfan). Argymhelliad yn unig yw hwn a bydd angen cynllunio a lleoli pob sefyllfa yn ddibynnol ar yr amgylchiadau lleol. I gael cyngor pellach ar y materion hyn, cynghorir chi i gysylltu â'ch adran Iechyd a Diogelwch yn uniongyrchol.

Cysgodfan Ysmygu

Smoking Shelter

Mae gan y fframwaith yma lai na 50% o ofod agored, felly mae'n "sylweddol gaeëdig" ac ni ddylid caniatau ysmygu.

Cyfanswm yr arwynebedd ar y perimedr (T) = tu blaen + tu ôl + 2 ochr

Arwynebedd y tu blaen = 2.2m x 5.1m = 11.22m²
Arwynebedd y Cefn =3.4m x 5.1m = 17.34m²
Arwynebedd yr ochrau (gyda'i gilydd)
= 2(2.2 a 2.3) + 1 (1.2 x 2.3) = 12.88m²
T = 41.44 m²

Cyfanswm arwynebedd y darnau solet (X) – waliau blaen + wal gefn + waliau ochr

Blaen solet = 1.6m x 1.0m + 1.8m x 1.0m = 3.4m
Cefn solet = 3.4m x 5.1m = 17.34m²
Ochrau solet = 2(2.3m x 1.0m) = 4.6m²

X = 25.34m²

Cyfanswm arwynebedd y bylchau (gofodau) i'r awyr agored (Y) = T-X

41.44m² - 25.34m² = 16.1m² **Y = 16.1m²**

X/T x 100% = 61% yn gaeëdig

Y/T x 100% = 39% yn agored

CYNGOR PELLACH

- Mae cyfarwyddyd manwl i'w gael ar y wefan ganlynol www.gwaharddsmygucymru.co.uk

  Yma, fe welir y camau y mae cyflogwyr, rheolwyr ac eraill sy'n rheoli adeiladau, angen eu cymryd i gydymffurfio â'r gyfraith sy'n ymwneud ag ysmygu.

- Yn ogystal, mae gwybodaeth ar gael ar wefan y Cyngor ar www.wrexham.gov.uk

I gael gwybodaeth a chymorth pellach, cysylltwch â'r Adran Iechyd a Diogelwch yn y cyfeiriad isod:-

Adran Tai a Diogelwch y Cyhoedd
Adeiladau'r Goron
Ffordd Caer
WRECSAM
LL13 8ZE

Ffôn: 01978 292040

Adran Tai a Diogelwch y Cyhoedd

Cysgodfannau Ysmygu

Cyngor i Fusnesau



wrexham
COUNTY BOROUGH

BWRDEISTREF SIROL
wrecsam